Ar ddydd Mawrth, 28ain Gorffennaf 2009 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00pm
PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadair); Trefor Davies; Mrs Gwenan Price; Daniel Jones; Mrs Edwina Davies; Tegwyn Lewis a'r clerc

2543 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth Y Cyng. D Sheppard; D M Hughes; D R Morgan a Mrs K Walker (cynrychioli CC Trefeurig yng Nghyfarfod Fferm Wynt Airtricity yn Nhalybont)

2544 **Materion Personol:** Dim

2545 **Datgan Buddiant Personol / Rhagfarnol**: Dim

2546 **Cadarnhau Cofnodion**: PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Mehefin 2009 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:
Cofnod 2521 Tir Amwynder ar ystâd Dôl Helyg: Yn absenoldeb y Cyng. D Sheppard PENDERFYNWYD gohirio'r mater hwn ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol
Cofnod 2527 Cynllun Tân ac Achub: PENDERFYNWYD gohirio'r drafodaeth ar y ddogfen hon nes bod y Cyng. DM Hughes yn bresennol i roi ei adroddiad
Cofnod 2529 Cynllun Iaith Gymraeg: Trafododd Y Cyng. Owen gynlluniau amgen. PENDERFYNWYD y byddai'n gwneud ymholiadau pellach cyn penderfynu pa un i'w fabwysiadu
Cofnod 2523 Newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio: PENDERFYNWYD cwblhau a dychwelyd yr holiadur ar gyfer Cynghorau Cymuned
Cofnod 2542 Gwasanaeth Band Eang yn ardaloedd Cwmsymlog a Rhoserchan: Ymateb anfoddhaol gan BT ac Openreach. PENDERFYNWYD cysylltu ag Elin Jones AC

2547 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**
Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig: Adroddodd y Cyng. Trefor Davies ar y CCB a gynhaliwyd ar 3ydd Gorffennaf. Mae prydles bresennol y Grŵp yn dod i ben ar 7fed Medi ond ni chafwyd unrhyw ymateb gan Geredigion ynghylch ymestyn y brydles neu gynlluniau ar gyfer yr adeilad yn y dyfodol. Bwriedir cynnal Cyfarfod Cyhoeddus ar 7fed Medi
PATRASA: Dwedodd Y Cyng. Gwenan Price fod Pwyllgor newydd wedi'i ffurfio yn ystod y CCB yn ddiweddar, ac mai hi yw'r Cadeirydd
CCB Un Llais Cymru 15 Gorffennaf: Mynychodd Y Cyng. R Owen a Mrs K Walker y Cyfarfod. Cytunodd y Cyng. Owen i fod yn aelod o Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cyng. Walker i fod ar y Pwyllgor dwyieithrwydd

Derbyniwyd ac ystyriwyd y dogfennau / ohebiaeth ganlynol:

2548 **Dargyfeirio Llwybr Troed:** Hysbysiad bod llwybr troed 9/38 Cwmisaf, Cwmsymlog wedi'i ddargyfeirio

2549 **Deddf Gamblo 2005 - Adolygu'r Datganiad Polisi Gamblo:** Gwahoddiad i wneud sylwadau ar Ddatganiad Polisi Gamblo Ceredigion sydd i'w adolygu erbyn diwedd Ionawr 2010. PENDERFYNWYD peidio â gwneud unrhyw sylwadau.

2550 **Dogfen Ymgynghori ar Addysg Uwchradd yng Ngheredigion:** PENDERFYNWYD gwahodd y Cyng. K Walker, a fynychodd gyfarfod ymgynghori yn Ysgol Penglais fel rhiant, i gwblhau'r ffurflen ymateb.

2551 **Un Llais Cymru:** Cafodd pob un o'r aelodau gopi o Gofnodion Cyfarfod Ardal Ebrill 2009

2552 **BBC - newid i Ddigidol:** PENDERFYNWYD arddangos copïau o'r wybodaeth ynghylch newid i Ddigidol

2553 **Un Llais Cymru:** Manylion Amserlen Hyfforddi 2009/10. PENDERFYNWYD y bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynychu'r Cwrs Modiwl 1, 'Y Cyngor' yn Aberaeron yn Nhachwedd 2009.

2554 **Dogfen Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion:** PENDERFYNWYD ei dosbarthu

2555 **Ceredigion – Rheoli Cŵn – Dogfen ymgynghori a holiadur:** PENDERFYNWYD ymateb

2556 **Ombwdsman – Adroddiad Blynyddol 2008/09:** PENDERFYNWYD ei ddosbarthu

2557 **Post Brenhinol - ynghylch y cais i newid y cyfeiriad post:** Cadarnhad ei bod hi'n dderbyniol newid y cyfeiriad ar gyfer yr ardal os bydd y trigolion a effeithir yn cytuno.

PENDERFYNWYD y bydd yr Aelodau, ar ôl derbyn y pro fforma, yn cysylltu â thrigolion Penbontrhydybeddau i ofyn am ganiatâd ysgrifenedig.

Materion Ariannol

2558 **Adroddiad Archwiliad Chwarterol – 1 Ebrill hyd 30 Mehefin 2009:** Cafodd yr Aelodau grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 30.06.09. Dengys cyfanswm derbyniadau o £14,427.32 yn erbyn gwariant o £2,355.05 sy'n golygu bod y balans yn **£12,072. 27**.
Mae cyfriflen gysoni'r Banc yn cadarnhau hynny ar 30 Mehefin 2009:-
HSBC: Cyfrif Cymunedol (taflen 298): £10,582.28 + Cyfrif Rheoli Busnes (taflen 108): £1,556.26 – Cyfanswm £12,138.54 Llai siec nas cyflwynwyd (Rhif 225) £66.27: balans
£12,072.27. Does dim mwy o Gyfrifon na chymwysiadau.
Mae adolygiad o'r gwariant ar gyfer y chwarter cyntaf yn erbyn cyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dangos na chafwyd unrhyw gostau annisgwyl ac mae'r taliadau hyd yn hyn o fewn y cyfyngiadau a osodwyd.
PENDERFYNWYD trosglwyddo £8,000 i'r Cyfrif Rheoli Busnes

2559 **Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Blynyddol o Gyfrifon Ariannol 2008/09:** Mae Archwiliad Mewnol Cyfrifon 2008/09 wedi'i gwblhau a dychwelwyd yr holl ddogfennau i'r Cyngor. Cyflwynwyd copi o Adroddiad yr Archwiliad i bob Aelod.
PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad
Y dyddiad a osodwyd ar gyfer yr Archwiliad Allanol yw 07 Awst 2009. Mae'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd hyd 31 Gorffennaf 2009, pan fydd yr holl ddogfennau'n cael eu hanfon ymlaen i'r Archwilwyr Allanol, BDO Stoy Hayward.

2560 **Mae'r 8fed rhifyn o "*Local Council Administration*",** gan Charles Arnold-Baker ar gael erbyn hyn. Mae Un Llais Cymru wedi argymell y dylai bob Cyngor gael copi.
PENDERFYNWYD ei archebu

Ystyriwyd a chytunwyd i dalu'r canlynol:-

2561 **L Griffiths –** Cyfieithu - Mehefin 2009: **£55.60** siec 929
2562 **Bryn Smith –** Archwiliad mewnol o gyfrifon 2008/09 **£150** siec 930
2563 **CCCLI –** '*Local Council Administration*' - £53.60 + £2.00 p&p: **£55.60** siec 931
2564 **GDYT -** Hurio ystafell ar gyfer Cyfarfod Gorffennaf: **£10.** Siec 932
2565 **Cwrs Hyfforddiant Un Llais Cymru -** Modiwl 1 / Tachwedd 2009 x 2 le @ £25 yr un: **£50.** Siec 933

2566 **Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:**

A070980 Tir ger Glanseilo, Penrhyncoch – Datblygiad Preswyl Cam 1 – wedi'i gymeradwyo
A071231 Tir ger Penybanc, Penrhyncoch – Datblygiad Preswyl – wedi'i gymeradwyo
A090064 Llain ger Awelon, Cefnllwyd – Annedd a Stordy - wedi'i gymeradwyo
A090286 69 Ger y llan, Penrhyncoch - estyniad - wedi'i gymeradwyo

2567 **Ystyriwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:**

A090450 2 Llwynprysg, Penrhyncoch – estyniad unllawr – dim gwrthwynebiad
A090496 Cwrt, Penrhyncoch – Stordy – dim gwrthwynebiad

2568 **Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd y Penrhyn am 7.00pm ar ddydd Mawrth, 15 Medi 2009** - oni bai bod yna faterion brys yn codi cyn y dyddiad hwnnw

2569 **Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf:**
- Cais i newid goleddf y cerrig pafin o flaen y fainc ar ffordd Banc y Darren
- Gofyn i Geredigion i dorri hyd ymyl y ffyrdd yng Nghwmerfyn
- Gofyn i'r Adran Gynllunio pam fod yna oedi hir cyn i'r Cynghorau gael gwybod am rai penderfyniadau cynllunio

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.00pm